

Gwerthusiad o rôl y Gweithiwr Anableddd Teulu yng Nghonwy: Crynodeb Gweithredol

Ebrill 2022



Dr Ceryl Teleri Davies, Prifysgol Bangor



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

CRYNODEB

Er bod ein dealltwriaeth o effaith anableddau/anghenion ychwanegol cymhleth ar blant/pobl ifanc wedi datblygu dros y blynyddoedd, cyfyngedig o hyd yw'r ddealltwriaeth o'r effaith ar y teulu cyfan.

Roedd y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar astudiaeth leol a gwblhawyd ar draws Conwy, a oedd yn cynnwys ffocws ar arolwg ar gyfer gweithwyr proffesiynol (n=23) a rhieni/gofalwyr (n=5) i archwilio eu hagweddau a'u barn am rôl y Gweithiwr Anabledd Teulu (GAT). Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig er mwyn casglu gwybodaeth fanwl gan weithwyr proffesiynol (n=23) a rhieni/gofalwyr (n=3). Nod y cyfweiliadau oedd archwilio profiadau'r cyfranogwyr o gefnogi anghenion plentyn/plant ag anabledd neu anghenion ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio'u barn ynghylch gweithio gyda'r GAT, gan gynnwys eu safbwyntiau ynghylch cryfderau a chyfyngiadau'r rôl hon. Canfu'r dadansoddiad nifer o bwyntiau allweddol: yn gyntaf, bod oedi cyn cael diagnosis arbenigol ar niwroddatblygiad yn cael effaith sylweddol ar y teulu cyfan, sy'n golygu bod teuluoedd yn profi effaith ymddygiadau sylweddol o bryder dros gyfnod hir; yn ail, bod yr effaith barhaus o fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn yn achosi i deuluoedd deimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn ynysig; yn drydydd, bod y teuluoedd hyn yn aml yn dioddef effaith tai gwael, tai gorlawn a thlodi; ac yn olaf, effaith gadarnhaol gyffredinol gweithio aml-asiantaeth cadarn ar ganlyniadau llesiant y teulu cyfan.

Mae'r canfyddiadau'n berthnasol i bolisi ac ymarfer, ac yn cyfrannu at faes llenyddiaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n archwilio natur anabledd ac anghenion ychwanegol ar deuluoedd sy'n cael eu gweld yn aml fel y 'coll yn y canol'. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu pwysigrwydd gwasanaethau ataliol i gefnogi anghenion teuluoedd â phlant ag anabledd neu anghenion ychwanegol. Un canfyddiad allweddol yw'r cytundeb digamsyniol aml-asiantaeth ac ar draws teuluoedd o ran pwysigrwydd y cyfraniad y mae rôl y GAT yn ei wneud. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu y byddai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas ag ehangu'r rôl hon yn ychwanegiad i'w groesawu i'r gwasanaethau aml-asiantaeth sy'n cefnogi teuluoedd ar draws Conwy.



Mae tystiolaeth yn awgrymu bod anghenion plant ag anabledd yn mynd yn fwy cymhleth (rhaglen Improving Lives, 2018) ac felly mae angen gwaith arloesol i ddeall a diwallu anghenion y plant hyn a'u teuluoedd. Mae bod ag anabledd yn aml yn gyflwr gydol oes. Mae plant ag anabledd yn aml yn dioddef ystod o anfanteision o ganlyniad i sbectrwm o anghenion iechyd, datblygiad a chorfforol, ond hefyd o ganlyniad i ystod o rwystrau: gan gynnwys, agweddau negyddol ac allgáu cymdeithasol, ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain i gyd i'w galluogi i fyw bywydau actif a llawn yn eu cymunedau. Mae agweddau cymdeithas tuag at anableddau wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Bellach cydnabyddir yn eang bod gan unigolion ag anabledd yr hawl i fyw'n annibynnol yn y gymuned, a chael cynnig dewisiadau ystyrlon o ran eu hanghenion iechyd, cymdeithasol a chymorth.

Gyda mwy o alw am wasanaethau i blant ag anableddau cymhleth, mae'r angen am gymorth lleol yn y gymuned i deuluoedd â phlant ag amrywiaeth o anableddau yn sylweddol. Er enghraifft, mae nifer y plant sydd angen addysg arbenigol yn Ysgol y Gogarth wedi cynyddu o 185 o ddisgyblion yn 2015 i 245 yn 2020 (Conwy PID, 2020). Mae gwasanaethau aml-asiantaeth ledled Cymru yn gweithio i fynd i'r afael ag anghenion y plant hyn er mwyn darparu ystod eang o gymorth a gwasanaethau o fewn cymunedau. Er gwaethaf hyn, mae anfanteision eang a chanlyniadau gwaeth yn cael eu cofnodi ar gyfer plant ag ystod o anableddau, gan gynnwys y plant hynny ar y sbectrwm ASD. Er hynny, cyfyngedig fu'r ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu neu fesur effaith ystod eang o ofal, cymorth ac ymyriadau i ddiwallu anghenion emosiynol, corfforol a llesiant cymdeithasol y plant hyn. Yn ogystal, mae bwlch o ran yr ymchwil o'r DU, yn enwedig ymchwil o Gymru, sy'n archwilio anghenion a chanlyniadau llesiant plant ag anabledd. Hefyd cyfyngedig yw'r data a'r wybodaeth ar draws y DU o ran gwerthuso effaith gwasanaethau llesiant i hyrwyddo datblygiad ystod eang o sgiliau ar gyfer plant ag anabledd a chymorth i'w teuluoedd hefyd.

Mae llawer o wasanaethau ar draws y DU yn tueddu i ddefnyddio meini prawf meddygol a seicolegol i ddiffinio anableddau (fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010). Dros y blynyddoedd diwethaf bu symudiad mwy cyffredinol ym maes ehangach anabledd i gefnogi pob person anabl i fyw eu bywydau fel dinasyddion llawn o safbwynt presgripsiynu cymdeithasol. Mae'r ethos hwn wedi'i wreiddio ymhellach yn sgil mabwysiadu Deddf Gofal [Lloegr] 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014. Mae'r ffocws ar sicrhau bod unigolion sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol yn cael eu galluogi i fyw'r bywyd y maent am ei fyw, gan ganolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw a'u teuluoedd. Dylai'r cymorth a gynigir ganolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Diffinnir llesiant mewn ystyr eang fel llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol a bod â'r hawl i reoli dewisiadau unigol i fyw bywyd llawn, gan gynnwys wrth sicrhau hawliau (adran 2 (3) Deddf GCLL (Cymru) 2014). Mae llesiant yn gysyniad personol ond eang sy'n effeithio ar sawl agwedd allweddol ar fywyd bob dydd, gydag eglurder ynghylch mesur canlyniadau llesiant personol wedi'i amlinellu gyda'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2015).

Nod y gwerthusiad hwn oedd archwilio effaith y GAT, rôl newydd a gynlluniwyd i hyrwyddo gwasanaethau llesiant ataliol sy'n ymateb i anghenion llesiant emosiynol, corfforol a chymdeithasol (gan gynnwys dilyniant sgiliau) plant ag anabledd trwy gyfrwng cymorth a gynigir i'w rhieni/gofalwyr. Roedd lleisiau'r teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau yn

llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau llesiant eu dylunio a'u darparu i ddiwallu anghenion o ran llesiant emosiynol, corfforol a chymdeithasol mewn modd cynyddol a seiliedig ar gryfder. Mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i siarad am lesiant a 'beth sy'n bwysig' i'r unigolion hyn yn eu bywyd bob dydd. Nid yn unig y bydd hyn yn canolbwyntio ar wasanaethau yn y gymuned, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar hyrwyddo anghenion a gwasanaethau llesiant trwy gyfrwng gwasanaethau cymunedol lleol, hyrwyddo sgiliau trwy ethos Cefnogaeth Weithredol a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS), a hyrwyddo datblygiad perthnasoedd cadarnhaol (gyda'r gymuned, gydag aelodau o'r teulu a chyfoedion a chyda sbectrwm eang o weithwyr proffesiynol ar draws y gwasanaeth aml-asiantaeth). Mae'r gwerthusiad hwn yn gyfle i archwilio effaith rôl ataliol newydd sy'n cysylltu â'r gymuned ac sy'n hyrwyddo llesiant cadarnhaol. Bydd hyn hefyd yn helpu i wreiddio ethos presgripsiynu cymdeithasol fel arf i wella gallu pobl i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau, gan gysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol a gwasanaethau cyhoeddus (Thomas et al, 2019). Nod rôl GAT yw darparu'r cyngor a'r cymorth cywir ar y cyfle cyntaf er mwyn ategu ystod o gyfleoedd i deuluoedd â phlant ag amrywiaeth o anableddau drwy ganolbwyntio ar ddatblygu eu canlyniadau a'u nodau llesiant. Mae'r ffocws ar gynyddu capasiti i gefnogi a chynyddu canlyniadau llesiant y plant hyn a'u teuluoedd. Bydd sefydlu dull mwy rhagweithiol, gan geisio adnabod y plant/teuluoedd hynny sydd mewn perygl o fynd yn 'sownd' o fewn gwasanaethau, yn gwella eu gallu i fyw mor annibynnol â phosibl ar y cyfle cyntaf.

Mae'r gwerthusiad hwn yn gyfle i fesur effaith rôl i hyrwyddo cyfleoedd i blant ag anabledd a'u teuluoedd gael mynediad i weithgareddau prif ffrwd fel y gallant fod yn aelodau actif o'u cymunedau lleol.

Y BROSES WERTHUSO

Gan ddefnyddio dull cydgynhyrchiol gyda gweithwyr proffesiynol allweddol, cynlluniwyd y gwerthusiad i ganolbwyntio ar dri chyfnod allweddol. Un o nodau allweddol dyluniad y gwerthusiad oedd tynnu ar werthoedd grymuso cadarnhaol a 'chyfranogiad gweithredol' i roi llais i gyfranogwyr ac felly mwy o bŵer i ddylanwadu ar ffurf y canfyddiadau.

Cam 1: Fel rhan o'r cam hwn, bydd lluniau gair a phroffiliau llesiant teuluol yn cael eu creu i amlinellu profiadau a 'straeon' y teuluoedd sy'n cyrchu cymorth y GAT. Bydd adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennau allweddol o ffeiliau electronig grŵp sampl o blant yn cael ei ddadansoddi. Caiff y cyfranogwyr eu recriwtio gan ddefnyddio dull samplu bwriadus gan fod angen cael mynediad at deuluoedd a gweithwyr proffesiynol allweddol sydd â gwybodaeth a phrofiad uniongyrchol o'r cymorth a gynigir gan y GAT. Caiff y cyfranogwyr eu recriwtio trwy'r broses atgyfeirio i gael mynediad at y cymorth gan y gweithiwr hwn (hyd at lefel dirlawnder y dadansoddiad). Bydd y dadansoddiad o'r data hwn yn llywio'r themâu penodol i'w harchwilio gyda'r teuluoedd fel rhan o'r cyfweiliadau lled-strwythuredig i gael ymdeimlad o'u profiadau.

Cam 2: mewn fformat hawdd ei ddarllen ar gyfer rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n gweithio gyda phlant ag anabledd yng Nghonwy.

Cam 3: a gaiff eu cynnal gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allweddol i gael ymdeimlad o'u profiadau wrth weithio gyda'r GAT.

1. THEMÂU: ADOLYGIAD O FFEILIAU ACHOS

Effaith sylweddol ar les y teulu cyfan o ganlyniad i oedi gydag asesiadau niwroddatblygiad a chan arbenigwyr CAMHS;

- Sbectrwm eang a chontinwrm o anghenion wedi'u nodi ar draws y teuluoedd yn y sampl;
- Anghenion dysgu a diagnosis o anabledd dysgu;
- Problemau lleferydd ac iaith (gan gynnwys problemau cyfathrebu);
- Hwyliau isel a phryderon iechyd meddwl yn achos y plant a'r rhieni/gofalwyr (yn aml yn achos y ddau dros yr un cyfnod);
- Meddyliau am hunan-niweidio a hunanladdiad gan blentyn ag anghenion cymhleth;
- Cyflwyno ymddygiadau sylweddol ac yn aml cymhleth sy'n peri pryder. Gallai adnabod yr ymddygiadau hyn yn gynnwys helpu'r GAT i fynd i'r afael ag anghenion ymddygiadol hirdymor y plant hyn;
- Stigma, cywilydd, allgáu cymdeithasol ac ynysigrwydd cymdeithasol;
- Anghenion ariannol, yn arbennig yr angen am gymorth o ran hawliau lles mewn perthynas â phrosesau gwneud cais am fudd-daliadau e.e. Lwfans Byw i'r Anabl. Roedd effaith cyllid yn aml oherwydd tlodi yn y teulu a'r angen am offer ychwanegol yn y tŷ. Roedd hefyd yn her i rieni/gofalwyr ddod o hyd i gyflogaeth a dal gafael arni. Felly, roedd sawl ffactor a oedd yn gysylltiedig ag anabledd/anghenion ychwanegol plentyn/plant o fewn y teulu yn effeithio ar y cyllid/adnoddau a oedd ar gael i deuluoedd.
- Anghenion o ran tai mewn perthynas â thai amhriodol a gorlawn.

Mae'r amrywiaeth o ymddygiadau ac anghenion ar draws yr achosion a adolygwyd yn heriol ac yn dangos cydadwaith cymhleth rhwng dynameg unigol a chyd-destunol. Yn ogystal, mae angen i fewnbwn arbenigol fod yn gyffredinol (gwaith codi ymwybyddiaeth ac ati) a chael ei dargedu i ddiwallu anghenion unigolion. Er bod addysg yn cael ei hystyried yn ffactor mewn rhai achosion, nid oedd yn brif duedd/thema ar draws yr achosion ac, o drafod y pwnc, roedd yn cael ei ystyried yn bennaf yn ffactor amddiffynnol. Mae gwybodaeth o'r adolygiad o achosion yn rhoi rhywfaint o wybodaeth allweddol: yn gyntaf, bod oedi cyn cael diagnosis arbenigol o niwroddatblygiad yn cael effaith sylweddol ar y teulu cyfan, sy'n arwain at fod teuluoedd yn profi effaith ymddygiadau sylweddol sy'n peri pryder dros gyfnod hir; yn ail, bod effaith barhaus mynd i'r afael â'r ymddygiad hwn yn achosi i deuluoedd deimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn ynysig; ac yn drydydd, bod y teuluoedd hyn yn aml yn dioddef effaith tai gwael, tai gorlawn a thlodi.


2. THEMÂU: HOLIADUR

Holiaduron Gweithwyr Proffesiynol

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod lefel dda o ddealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau'r rôl hon, gydag 20 o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn. Wrth ystyried a oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y rôl hon yn bwysig i deuluoedd, ymatebodd 95% eu bod yn cytuno'n gryf/cytuno bod y rôl hon yn bwysig (gyda dim ond un cyfranogwr yn dewis 'ddim yn gwybod'). Mae hyn yn arwydd cryf o'r gefnogaeth aml-asiantaeth i'r rôl hon fel agwedd allweddol ar y fframwaith aml-ddisgyblaethol i gefnogi teuluoedd yng Nghonwy. Cadarnhawyd hyn gydag ymateb yr ymatebwyr yn adlewyrchu eu barn bod y rôl hon yn cyfrannu at waith aml-asiantaeth, oherwydd eto roedd 96% yn cytuno â'r datganiad hwn. Roedd cefnogaeth gadarnhaol hefyd i'r rôl hon fel rhan o'r fframwaith aml-asiantaeth, mewn modd 'ar wahân' neu benodol, gyda'r ymatebwyr yn nodi'n glir nad oedd y rôl hon yn dyblygu tasgau gweithwyr proffesiynol allweddol eraill. Unwaith eto, nododd dros 96% o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod y rôl hon yn rhoi cymorth 'gwerthfawr' i deuluoedd, sy'n 'ddefnyddiol' ac y mae teuluoedd yn 'elwa' ohoni. At hynny, roedd cefnogaeth ddigamsyniol i agwedd allweddol ar y rôl hon, gan fod dros 96% o'r cyfranogwyr eto yn dweud bod y rôl hon yn eirioli ar ran teuluoedd sydd â phlant ag anabledd neu anghenion ychwanegol. Cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd i'r datganiadau bod y rôl hon yn grymuso rhieni/gofalwyr ac yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i deuluoedd â phlant ag anghenion niwroddatblygiad a/neu ychwanegol. Roedd elfen ataliol y rôl hon hefyd yn cael ei gwerthfawrogi, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gadarnhaol o ran y datganiad a oedd yn archwilio a oedd y rôl hon yn gwella ansawdd bywyd teuluoedd sy'n cael y cymorth hwn.

Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad o ffeiliau achos, roedd datganiadau allweddol yn yr holiadur yn archwilio barn y gweithwyr proffesiynol ynghylch yr anawsterau posibl y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael mynediad at dai priodol, heriau ariannol a'u profiadau o ynysigrwydd cymdeithasol, allgáu cymdeithasol, stigma a chywilydd. Roedd y dadansoddiad o'r data'n adlewyrchu bod 74% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y teuluoedd a oedd yn cael y cymorth hwn yn wynebu rhwystrau ariannol, gyda 22% yn dweud 'ddim yn gwybod' a 4% yn anghytuno â'r datganiad hwn (sy'n cyfateb i un ymatebwr). Daeth darlun tebyg i'r amlwg o ran y farn ynghylch y rhwystrau y mae'r teuluoedd hyn yn eu hwynebu o ran cael mynediad at dai priodol, gyda 74% eto'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn, tra bod 17% yn nodi 'ddim yn gwybod' a 9% yn anghytuno â'r datganiad hwn (2 ymatebwr). Roedd lefel uwch o ymatebwyr yn anghytuno bod teuluoedd sy'n cael y cymorth hwn yn wynebu stigma a chywilydd yn eu cymunedau, gan fod 30% (saith o ymatebwyr) yn anghytuno â'r datganiad hwn, tra bod dros 60% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn. Ategwyd y farn hon yn y datganiad nesaf a oedd yn archwilio a oedd y teuluoedd hyn yn wynebu stigma a chywilydd gan weithwyr proffesiynol, gan mai dim ond 26% oedd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn, tra bod canran uwch naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno (dros 60%). Roedd hyn yn cynnig arwydd cadarn bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod eu rôl yn hyrwyddo cymorth cadarnhaol, gwrth-ormesol i deuluoedd â phlant ag anabledd neu anghenion ychwanegol.

Roedd cefnogaeth 100% ar draws y sampl i ddatblygu a chynnig amrywiaeth eang o ymyriadau i gefnogi anghenion y teuluoedd hyn. Mae hyn yn arwydd cadarn ar sail aml-asiantaeth bod gwasanaethau eisiau cynnig dewislen o ymyriadau llesiant i ddiwallu anghenion personol teuluoedd sy'n profi anawsterau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried y gwasanaethau a fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi teuluoedd, a chyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau isod yn Ffigur 1: Rhestr o Gymorth Defnyddiol.



Pan ofynnwyd a fyddai gweithwyr proffesiynol yn elwa o gael mynediad at Becyn Cymorth Lles i gefnogi anghenion teuluoedd, roedd 83% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol. Roedd awgrym cryf hefyd ynghylch datblygu'r rôl hon i'r dyfodol, gyda 91% o'r ymatebwyr yn cytuno bod hyn yn angenrheidiol, a dim ond 9%, sef dau ymatebwr, yn dewis 'ddim yn gwybod'.


Holiadur Rhieni/Gofalwyr

Mae'r holl ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur yn famau yn eu 30au (ystod oedran 30-37 oed), gyda phedwar o'r ymatebwyr yn byw gyda phartner ac un yn rhiant/gofalwr sengl. Nododd pedwar o'r ymatebwyr eu bod o gefndir gwyn Prydeinig, tra nododd un ei bod o grwpiau ethnig cymysg/lluosog. Nododd un ymatebwr ei bod yn gweithio'n llawn amser, dau eu bod yn gweithio oriau rhan amser a dau eu bod yn ofalwyr amser llawn.

Roedd y datganiad cyntaf yn archwilio lefel y ddealltwriaeth o rôl y GAT. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu lefel dda o ddealltwriaeth o'r rôl hon, gyda'r holl ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn deall yn glir nod y rôl hon. Wrth ystyried a oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y rôl hon yn bwysig i'w teulu, ymatebodd 100% eu bod yn cytuno'n gryf/cytuno bod y rôl hon yn bwysig. Roedd cytundeb hefyd bod y rôl hon yn helpu teuluoedd i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gyda'r holl ymatebwyr yn nodi bod y rôl hon wedi helpu eu teulu, wedi cynorthwyo i 'wneud eu bywyd yn well', ac wedi cynorthwyo i'w grymuso yn eu rôl rhianta/gofalu.

Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad o ffeiliau achos, roedd datganiadau allweddol yn yr holiadur yn archwilio barn rhieni/gofalwyr ynghylch yr anawsterau posibl y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael mynediad at dai priodol, yr heriau ariannol y maent yn eu hwynebu a'u profiadau o ynysigrwydd cymdeithasol, allgáu cymdeithasol, stigma a chywilydd. Roedd y dadansoddiad o'r data yn adlewyrchu bod 80% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi profi rhwystrau ariannol. O'r teuluoedd hynny a lenwodd yr holiadur, nododd 40% eu bod yn profi rhwystrau o ran cael mynediad at dai priodol, a nododd 60% 'ddim yn gwybod'. Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (80%) eu bod wedi wynebu stigma a chywilydd o fewn eu cymunedau, gydag un ymatebwr yn nodi 'ddim yn gwybod'. Dim ond 20% o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo eu bod wedi profi stigma a chywilydd gan weithwyr proffesiynol wrth ddefnyddio gwasanaethau, tra nododd 60% 'ddim yn gwybod' ac roedd 20% yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn.

Roedd cefnogaeth gan 80% ar draws y sampl i ddatblygu a chynnig ystod eang o ymyriadau i gefnogi teuluoedd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried y cymorth a fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi eu teuluoedd, a chyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau isod yn Ffigur 2: Rhestr o Gymorth Defnyddiol.



Pan ofynnwyd a fyddai teuluoedd yn elwa o gael mynediad at Becyn Cymorth Lles i gefnogi anghenion teuluoedd, roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol. Roedd awgrym cryf hefyd ynghylch datblygu'r rôl hon i'r dyfodol, gyda 100% o'r ymatebwyr yn cytuno bod hyn yn angenrheidiol.

3. THEMÂU: CYFWELIADAU

Datblygu rôl y GAT

Nod datblygu'r rôl benodol hon oedd ehangu'r gwasanaethau ataliol i gefnogi teuluoedd â phlant ag anableddau ac anghenion ychwanegol, yn benodol y teuluoedd hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael mynediad at wasanaethau gan y tîm plant ag anableddau. Fel rhan o'r gwasanaethau anabledd i blant a theuluoedd o fewn gofal cymdeithasol, fe fu rôl gwaith cymdeithasol yn canolbwyntio ar rôl ataliol aml-asiantaeth, gan weithio'n agos gydag Ysgol y Gogarth a'r Ganolfan Datblygiad Plant. Pan ddaeth y rôl hon yn wag, penderfynwyd cynnal gwerthusiad o opsiynau yn canolbwyntio ar archwilio'r angen am y rôl hon. Awgrymodd yr adolygiad hwn y dylai'r rôl ofynnol ganolbwyntio mwy ar gefnogi teuluoedd i fynd i'r afael ag anghenion allweddol mewn ffordd ymarferol e.e. anghenion o ran tai a chyllid. Canfu hefyd bod bwlch allweddol yn y ddarpariaeth yr oedd angen ei integreiddio â'r cymunedau lleol drwy'r canolfannau teulu. Roedd bwlch hefyd o ran cydlynw gwasanaethau i ddarparu cymorth, gan ddatblygu rôl, yn y bôn, a oedd yn cyfeirio ac yn gweithio i 'agor drysau' i deuluoedd at wasanaethau. Roedd y gwerthusiad hwn o opsiynau yn gyfle i 'bwyso a mesur' o ran yr anghenion lleol, gan roi ymdeimlad cyfoethog o'r broses gynllunio a lywiodd y sail resymegol i ddatblygu rôl y GAT. Roedd y nod cyffredinol yn canolbwyntio ar ddull uchelgeisiol, creadigol a seiliedig ar gryfder i ddatblygu pum ardal ddaearyddol allweddol ar draws y sir a fyddai'n cysylltu â chymorth cydgysylltu ataliol i'r teulu cyfan drwy ffrydiau gwaith y canolfannau teulu (a fyddai'n cynnwys Tîm o Amgylch y Teulu a Dechrau'n Deg). Y bwriad felly oedd cynnwys y GAT fel rôl allweddol o fewn y model ataliol hwn i gynnig cefnogaeth a chyfeirio teuluoedd i dderbyn cefnogaeth gan wasanaethau arbenigol. Mae cyfranogwr chwech yn cynnig crynodeb da o'r rôl: -

Well, I think it's very good because they are there to make sure that people are accessing the right services, that they're being supported in the right way and that person has got someone that they can go to sort out things for them. They're obviously specifically, you know, dealing with people with disabilities um because sometimes- I know sometimes people may have other things wrong with them, but they've never talked about it or they've never gone to the right professionals. So this is making sure that they're accessing the right treatments as well.

Mae'r crynodeb a gynigir ynghylch 'cael y driniaeth gywir' ac anghenion yn hanfodol i deuluoedd â phlant ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Mae'r ffocws hefyd ar gefnogi teuluoedd mewn modd pwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganolbwyntio ar feithrin perthnasoedd fel yr eglurodd Cyfranogwr saith.



I think it's going [the FDW role] to be able to give them [the FDW role] more knowledge about what exactly is going on with the family, because if you've got somebody in there who is a specialist working with the family, you're going to get more knowledge and more information out that they can share and maybe process and take further, you know, to get them the help that they need, really. So ... I think they're going to be really good roles to have. It's going to be an asset, I think, to the family workers.

Amlygwyd hefyd y syniad o ddatblygu rôl y GAT fel rôl allweddol i gydlyn cymorth aml-asiantaeth, i wella a datblygu cefnogaeth gyson i deuluoedd er mwyn cynnig sicrwydd ac eiriolaeth i rieni.

For me, their role is to bring all the services together, to see what the needs of those families are and rather than having twenty million people involved, maybe to coordinate it, but obviously to get the right support at the right time for that family. To intervene, really, where needed and be a regular ... support for that family. (Participant 8).

Trafodwyd y diffiniad neu'r cysyniad o anabledd ac anghenion ychwanegol gyda phob cyfranogwr. Cafodd yr heriau o sefydlu diffiniad clir neu yn wir ddiagnosis eu crynhoi'n glir gan Gyfranogwr 2: -

A disability is a nuanced kind of, process that we often discuss within early years services is that transition between the term global developmental delay or developmental delay and learning disability and when do we start having conversations around a child having a learning disability as opposed to them being identified as having developmental delay in their early years, the first five years of life. But I guess in terms of defining disability is you know, in relation to their chronological age and their peers of the same age that they are not perhaps at the level that would typically be expected in the different developmental domains. Also having significant difficulties with developing independent living skills. So you know, the daily, kind of, adaptive functioning skills that we need to be able to live our lives independently, and that kind of, develops and changes over time. So obviously with very young children they're much more reliant on their caregivers and those people around them to provide that support, but as they get older from a typical developmental trajectory children and young people would be developing some of those skills more independently but those with disabilities may follow a different trajectory....having additional needs is those children that need those additional support in order to be able to access the community, the services, activities, daily life in the- you know, in as close a way as possible as their typically developing peers. And they may need support to do that. So whether that's education, you know, community use, extracurricular activities those sorts of things. The children and young people who, kind of, fall between the cracks of services, so they don't have necessarily a mental health difficulty that is considered severe enough for CAMHS, they don't have a diagnosis of a learning disability.

Roedd y crynodeb o'r plant penodol hyn fel y rhai sydd i bob pwrpas yn 'syrthio drwy'r rhwyd' yn thema gyson drwy'r cyfweiliadau. Teimlwyd hefyd bod y GAT yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol fframwaith polisi cymdeithasol Cymru, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Cymru] 2015. Amlygwyd hefyd y dylai'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gyd-fynd â'r diffiniad o Anabledd a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010¹.

1 Mae'r Ddeddf yn diffinio person anabl fel person ag anabledd. Mae gan berson anabledd at ddibenion y Ddeddf os oes ganddo neu ganddi nam corfforol neu feddyliol a bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu neu ei gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (A6(1)).

Un o'r anghenion allweddol a amlygwyd fel thema gyson wrth drafod y diffiniad o anabledd oedd y gofyniad i gynnig cefnogaeth i rieni/gofalwyr i reoli ymddygiad. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd bod angen i wasanaethau symud oddi wrth y model meddygol o anabledd, er mwyn sicrhau ffocws ar anghenion cymdeithasol ac anghenion ychwanegol trwy ymagwedd yn canolbwyntio ar les a phresgripsiynu cymdeithasol.

Dangosodd y drafodaeth ar draws asiantaethau fod angen datblygu rôl GAT a oedd yn hyblyg i anghenion y teulu. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad ymwybodol i osgoi sefydlu meini prawf llym neu 'swyddogol' i gael mynediad at gymorth. Roedd hyn yn sicrhau mai ffocws y rôl o hyd oedd cynnig cymorth rhianta ac emosiynol, yn canolbwyntio ar wrando gweithredol ac ar archwilio 'beth sy'n bwysig' i bob teulu i sefydlu nodau llesiant yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Nod cymorth hyblyg hefyd oedd gwella'r rôl ataliol ar y cam cynharaf posibl, er mwyn cysylltu teuluoedd yn ôl yr angen â gwasanaethau arbenigol er mwyn osgoi'r angen am gymorth hirdymor. Yn ogystal, disgrifiwyd y GAT hefyd fel adnodd cymunedol yn canolbwyntio ar gysylltu teuluoedd ag adnoddau cymunedol a gwaith grŵp lleol ar ymyrraeth. Felly, disgrifiwyd y rôl fel rôl tair haen yn canolbwyntio ar y canlynol:

Haen 1: Galluogi a chyfeirio person-ganolog ar gyfer y teulu cyfan;

Haen 2: Eiriolwr grymuso a gwrando gweithredol i fynd i'r afael â heriau wrth gael mynediad at wasanaethau arbenigol;

Haen 3: Cynnig a darparu ymyriadau wedi'u teilwra.

Lles, proffil anghenion a gwaith aml-asiantaeth

Mae diffiniad o lesiant yn cael ei amlygu fel un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014². Roedd y drafodaeth ar lesiant, atal ac arfer seiliedig ar gryfderau yn thema allweddol ar draws y cyfweiliadau, a rhoddir crynodeb cysyniadol yn y model isod, Ffigur 3:

2 Dyletswydd Llesiant mae [Adran 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hyrwyddo Llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a Llesiant gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r ddyletswydd Llesiant gyffredinol hon yn berthnasol i bob person a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau statudol eraill.

Mae [adran 2 o Ddeddf 2014](#) yn diffinio "llesiant", o ran person, fel lesiant mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol—


- (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- (c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- (d) perthnasau domestig, teuluol a phersonol;
- (e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- (f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- (g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- (h) addasrwydd llety preswyl.

O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- (b) "lles" fel y diffinir y term cyfatebol "welfare" at ddibenion [Deddf Plant 1989](#).

O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—


- (a) rheolaeth ar fywyd bob dydd;
- (b) cymryd rhan mewn gwaith.




Roedd ymdeimlad cryf hefyd bod yr arfau asesu presennol y mae'r GAT yn eu defnyddio, yn benodol yr Offeryn Llesiant Teuluol, yn helpu i annog sgwrs gydweithredol gyda'r teulu cyfan i deilwra'r cynllun cymorth i'w hanghenion mewn modd ystyryth a phwrpasol. Amlygodd sawl cyfranogwr bwysigrwydd cynnal y dull hwn, sy'n cael ei grynhoi'n glir gan Gyfranogwr 19.

I think the interventions or the support they give families I hope they'd be a bit less bureaucratic in a way, maybe. You know, cos as soon as we have cases open, families- some of the families we work with, they can be quite non-engaging at times. And we have our statutory guidance to follow, and we have to review the cases. So maybe that approach helps some families more... But yeah, it'd be nice to see that there'd be more choice with that route [FDW route].

Datgelodd adolygiad manwl o'r cyfweiliadau ddealltwriaeth gyson o anghenion y teulu ar sail aml-asiantaeth. Roedd yr anghenion amrywiol ac yn aml cymhleth hyn yn cael eu disgrifio fel rhai oedd yn ymwneud â thri chylch allweddol o ddigwyddiadau, gweler Ffigur 4:



Roedd y cylch hwn o ddigwyddiadau yn aml yn arwain at fod angen cymorth ac arweiniad ar rieni/gofalwyr, gweler Ffigur 5: Pyramid cymorth rhieni/gofalwyr



Cymorth i gael mynediad at wasanaethau arbenigol:

Cymorth i ymdopi â rhestr aros hir i gael asesiadau iechyd arbenigol

Cymorth i wneud y gorau o hawliau:

Cymorth i gael mynediad at fudd-daliadau tai a lles priodol

Mynediad i'r gymuned: Cymorth i gael gwared ar stigma, cywilydd a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth cymunedol: i osgoi unigrwydd ac ynysigrwydd

Cymorth gyda thasgau 'Bob dydd': Cymorth gyda siopa, rheoli arian a dod yn annibynnol

